***Teigrod a Dreigiau: Celf, Cymru a'r Ymerodraeth Brydeinig***

**Dydd Gwener 10 Hydref 2025, 10:00 yb – 4:30 yp**

**Lleoliad: Oriel Gelf Glynn Vivian, Abertawe**

Cynhadledd a drefnir ar y cyd gan: Brifysgol Bryste ac Oriel Gelf Glynn Vivian, Abertawe

Cynulliwyd gan: Zehra Jumabhoy a Katy Freer i gyd-fynd ag arddangosfa **Teigrod a Dreigiau: India a Chymru ym Mhrydain** yn Oriel Gelf Glynn Vivian.

Mae arddangosfa **Teigrod a Dreigiau: India a Chymru** ym Mhrydain wedi'i churadu gan Swyddog Arddangosfeydd Oriel Gelf Glynn Vivian, Katy Freer, a'r hanesydd celf Dr Zehra Jumabhoy ym Mhrifysgol Bryste. Ariannwyd ymchwil Jumabhoy ar gyfer yr arddangosfa gan un o Gymrodoriaethau Ymchwil Guradurol Paul Mellon Centre for British Art.

Mae'r arddangosfa hon yn bosib oherwydd grant gan Raglen Fenthyca Weston drwy Art Fund.

Mae'r arddangosfa'n ddiolchgar am gefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru, Casgliad Taimur Hassan; Canvas Gallery, Karachi; Grosvenor Gallery, Llundain; Chatterjee & Lal Gallery, Mumbai, a Chemould Prescott Road, Mumbai.

Zehra yw Cymrawd Arweinwyr y Dyfodol cyntaf Ymddiriedolaeth Berger ar gyfer hanes celf Prydain 2025-26 (a lansiwyd gan Trinity Hall, Prifysgol Caergrawnt, a The Huntington, Califfornia). Hwyluswyd y gynhadledd hon o ganlyniad i ddyfarnu'r Gymrodoriaeth hon.

**Crynodeb o'r Gynhadledd:** Os India oedd 'yr em yn y goron ymerodrol', a allem ddadlau mai Cymru oedd trefedigaeth gyntaf Lloegr? Wrth i Gymru frwydro am ei hunaniaeth o fewn 'Prydeindod', a oes cymariaethau ystyrlon i'w tynnu o'r profiad Indiaidd? Mae'r gynhadledd hon yn cyd-daro â phrif arddangosfa Oriel Gelf Glynn Vivian, sef *Teigrod a Dreigiau: India a Chymru ym Mhrydain* (tan 2 Tachwedd 2025) sy'n cynnwys mwy na 120 o gelfweithiau gan dros 70 o artistiaid o Gymru, India, Pacistan, Lloegr ac UDA. Mae'r rhaglen hon yn archwilio'r prif adrannau thematig o'r arddangosfa; gan ddadansoddi'r elfennau hanesyddol a chyfoes sy'n cysylltu isgyfandir India â Chymru gyda help artistiaid, curaduron, haneswyr (celf) a damcaniaethwyr diwylliannol.

***Rhaglen y Gynhadledd:***

**Bore Astudio yn yr arddangosfa: 10:00 yb - 11:00 yb**

***Mae'r grŵp trafod yn cynnwys (5 munud dewisol ar gyfer gwaith ar thema o ddewis):***
Dr Rhys Kaminski-Jones (Prifysgol Cymru)
Yr Athro Daniel Williams (Prifysgol Abertawe)

Yr Athro Martin Johnes (Prifysgol Abertawe)
Yr Athro Kirsti Bohata (Prifysgol Abertawe)
Dr Peter Dent (Prifysgol Bryste)
Dr Hadi Baghaei-Abchooyeh (Prifysgol Abertawe)
Nigel A. Robins (Daearyddwr sy'n arbenigo mewn treftadaeth a systemau gwybodaeth ddaearyddol)
Dr Jenny Williamson (Gwarchodwr, Oriel Gelf Glynn Vivian)
Ellie Dawkins (Archifydd, Oriel Gelf Glynn Vivian)
Nick Thornton (Amgueddfa Caerdydd)
Yr hanesydd celf a'r curadur Peter Lord
Yr hanesydd celf a'r curadur Andrew Renton
Yr artist Kathryn Ashill
Yr artist Kathryn Campbell-Dodd
Yr artist David Alesworth
Yr artist Iwan Bala
Yr artist Peter Finnemore
Peter Wong (Cynghorydd y Rhath, Caerdydd)

**11:00 yb – 11:15 yb – Egwyl Coffi (15 munud)**

**11:15 yb - 11:25 yb**

Croeso gan Karen MacKinnon (MBE), Curadur Oriel Gelf Glynn Vivian yn Abertawe

Croeso gan Dr Peter Dent, Pennaeth Hanes Celf, Prifysgol Bryste, y DU

Trosolwg byr oddi wrth guradwyr arddangosfa *Teigrod a Dreigiau*:
Katy Freer a Dr Zehra Jumabhoy

**<u>Tirluniau: Prydeindod, Brwydrau a Theigrod:</u>**

11:30 yb – 11:50 yb
***Viewing India (from Flintshire): Thomas Pennant's View of 'Hindoostan' (1798)***
Dr Rhys Kaminski-Jones (Prifysgol Cymru) – 20 munud
**Crynodeb:** Yn y 1790au, casglodd yr awdur Thomas Pennant o Gymru yr hyn a alwodd yn 'View of Hindoostan' - dwy gyfrol o lawysgrifau sylweddol o wybodaeth ar India, a oedd rhywfaint yn debyg i wyddoniadur goleuedig a llyfr lloffion ecsentrig. Mae casgliad darluniedig helaeth Pennant yn dweud llawer wrthym am y syniadau am India a gyfryngwyd yn sylweddol a oedd ar gael yng Nghymru ymerodrol.

11:55 yb – 12:15 yp
***Romantic Landscapes: J.M.W. Turner's Visions of Wales and India***
Dr Nicole Cochrane (Tate Britain, Llundain) – 20 munud
**Crynodeb:** Bydd y sgwrs hon yn cymharu'r brasluniau, y paentiadau a'r dyfrlliwiau a ysbrydolwyd gan deithiau cynnar J.M.W. Turner o gwmpas Cymru yn y 1790au, a'r ddwy gyfres o waith a gwblhaodd ar ei syniadau am India (cwblhaodd yr un gyntaf ym 1800 a'r ail un yn yr 1830au) a oedd yn seiliedig ar adroddiadau ymwelwyr a milwyr Prydeinig yn India. Wrth wneud hynny, mae'n archwilio ei ymagweddau tuag

at ddieithrwch, tirluniau a theithio a sut y gwnaeth y rhain gynrychioli ysbrydoliaeth ddefnyddiol ar gyfer y syniad o ddod yn artist proffesiynol ym Mhrydain ar ddechrau'r 19eg ganrif.

12:20 yp - 12:40 yp
***Victoria's 'Hunting' Scenes: Amna Walayat's Paintings and their Mughal-era sources***
Dr Mehreen Chida-Razvi (SOAS, Prifysgol Llundain) – 20 munud
**Crynodeb:** Bydd y cyflwyniad hwn yn trafod pwysigrwydd gwleidyddol delweddau o helfeydd mewn paentiadau o gyfnod Mughal ac ailddehongliad tanseiliol o'r thema yn ei phaentiadau o'r Frenhines Victoria sy'n ymddangos yn arddangosfa *Teigrod a Dreigiau*. Fel rhan o'r sgwrs hon, bydd gwaith Walayat yn cael ei gyferbynnu yn erbyn y paentiadau gwreiddiol o oes Mughal y mae ei delweddau'n seiliedig arnynt, gan ddangos y berthynas fythol rhwng hela, pŵer gwleidyddol, a phropaganda gweledol.

12:45 yp – 1:00 yp
***Ymatebydd:*** Katy Freer (Oriel Gelf Glynn Vivian, Abertawe)

**1:00 yp – 1:45 yp Egwyl Cinio (45 munud)**

<u>**Dreigiau a Mamwledydd:**</u>

***Cadeirydd:*** Yr Athro Martin Johnes (Prifysgol Abertawe)

1:45 yp – 2:15 yp
***Wales as Woman (how The Bard lost out to Blodwen)***
Peter Lord (hanesydd celf arobryn o Gymru) – 30 munud
**Crynodeb:** Mae'r sgwrs hon yn nodi'r ddelwedd flaenaf o Gymru fenywaidd, dosbarthiad y ddelwedd gan amlaf mewn fformatau print ac adnabod yn ôl rhyw fel metaphor gwleidyddol.

2:20 yp – 2:40 yp
***The Welsh Dragon is a Ludic Being***
Dr Sarah Pogoda (Prifysgol Bangor) – 20 munud
**Crynodeb:** Bydd y cyflwyniad hwn yn awgrymu bod Draig Cymru'n cael ei defnyddio mewn ffordd fwy chwareus na'r map o Gymru, ond mae'n creu negeseuon gwleidyddol sydd yr un mor gryf. Mae'r cyflwyniad yn dilyn taith y ddraig mewn tri lleoliad: Grŵp Beca, Jonathan Meese a NWK-AO (Celf Cymru Newydd). Gall Draig Cymru hedfan a phoeri tân, ac mae'n creu llinellau hedfan yn barhaus ac yn osgoi cael ei dal.

2:45 yp – 3:00 yp
***Trafodaeth dan arweiniad y Cadeirydd***

**3:00 yp – 3:15 yp – Egwyl De (15 munud)**

**<u>Gwreiddiau ac Iaith:</u>**

3:15 yp – 3:35 yp
***On Welshness and Whiteness***
Yr Athro Daniel G. Williams (Prifysgol Abertawe) – 20 munud
**Crynodeb:** Ym 1955, chwaraeodd yr actor o Gymru Richard Burton rôl y meddyg Hindŵaidd Dr. Rama Safti yn y ffilm *The Rains of Ranchipur*. Mae'r sgwrs hon yn defnyddio perfformiad Burton fel man cychwyn i archwilio'r tensiwn rhwng hunanddelwedd y Cymry fel y rheini a wladychwyd ac fel gwladychwyr, fel pobl gwyn neu (fel yr ymadrodd a ddefnyddiwyd gan y Burton am ef ei hun) 'off-white'. Mae gan y tensiwn hwn hanes hir oherwydd, fel yr archwiliodd Gwyneth Tyson Roberts, crëwyd y ffurfiau pennaf o Gymreictod yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg mewn perthynas â thrafodaeth ymerodrol o 'ddüwch', yn enwedig mewn ymateb i adroddiad enwog y llywodraeth, *Adroddiad ar Gyflwr Addysg yng Nghymru* (Llyfrau Gleision 1847). Mae portread Burton o Dr. Shafti yn dangos rhywfaint o syniad Homi Babha o ddynwared trefedigaethol fel rhywbeth sydd 'bron yr un fath, ond nid yn union'; perfformiad o debygrwydd sy'n dangos gwahaniaeth yn anochel ac sydd felly'n ansefydlogi ffurfiau deuaidd trefedigaethol. Mae'r sgwrs yn bwriadu trafod gwaith diweddar mewn astudiaethau gwynder i archwilio cwestiwn canolog sy'n codi o waith cymharol ar India a Chymru. Pan fydd pobl gwyn yn dynwared, a yw'n gwyrdroi goruchafiaeth er mwyn ei atgyfnerthu?

3:40 yp – 4:00 yp
***Of Roots and Rooted-ness***
Dr Zehra Jumabhoy (Prifysgol Bryste) – 20 munud
**Crynodeb:** Bydd y sgwrs hon, sy'n trafod y cysylltiadau rhwng cartref, cenhedloedd, iaith a pherthyn a archwiliwyd yn *Teigrod a Dreigiau*, yn canolbwyntio ar y ffyrdd cymhleth y mae'r themâu hyn yn gorgyffwrdd ac yn cydblethu yng ngwaith yr artistiaid Cymreig, Indiaidd a Phacistanaidd yn yr arddangosfa. Mae perfformiad *From Land to Fire* (2025) Nikhil Chopra sy'n byw yn Goa, sy'n seiliedig ar Richard Glynn Vivian a'i ddyddiaduron teithio, yn defnyddio syniad Homi Babha o ddynwared trefedigaethol mewn cyd-destunau Cymreig ac Indiaidd yn yr Atriwm. Yn ystafelloedd 8 a 9, mae artistiaid cyfoes - fel Liaqat Rasul, David Alesworth, Anwar Shemza, Risham Hosain Syed, Zarina Hashmi, Rummana Hussain ac Iwan Bala – yn cyfleu ymdeimlad cyffredin o "Hiraeth" (gair Cymraeg sy'n dynodi dyhead dwfn am berson, lle neu amser coll).

4:05 yp – 4:25 yp
***Gardening the Archive: Anthotypes, Empire and Photographic Resistance***
David Alesworth (Artist, Bryste) – 20 munud
**Crynodeb:** Bydd yr artist Prydeinig-Pacistanaidd Alesworth yn trafod cysyniadau dadleoliad, cartref a 'gwreiddiau' yng nghyd-destun ei gyfraniadau artistig i arddangosfa *Teigrod a Dreigiau*: mae ei gyfres o argraffiadau haul neu *haldi* (tyrmerig) o flodau sy'n trafod treftadaeth Abertawe fel dinas borthladd yr Ymerodraeth; canolbwynt datblygiadau arloesol ym meysydd botaneg a ffotograffiaeth. Mae argraffiadau haul Alesworth, fel *Empire Posie* (2025) yn cyfeirio at Baneli yr Ymerodraeth Brydeinig Frank Brangwyn yn Neuadd y Ddinas yn Abertawe (y mae'r brasluniau ar eu cyfer yng nghasgliad Oriel Gelf Glynn Vivian) yn ogystal â dyled ddiwylliannol y ddinas i'r teulu Dillwyn.

4:25 yb - 4:35 yb
***Ymatebydd:*** Dr Rhys Kaminski-Jones (Prifysgol Cymru)

**4:35 yp - 5:00 yp**

**DIODYDD A LANSIAD LLYFR *TEIGROD A DREIGIAU***

## Gwybodaeth Fywgraffiadol Siaradwyr (Yn y Drefn y Byddant yn Ymddangos)

Mae **Dr Zehra Jumabhoy** yn Ddarlithydd Hanes Celf ym Mhrifysgol Bryste, y DU. Hi yw Cymrawd Arweinwyr y Dyfodol cyntaf Ymddiriedolaeth Berger ar gyfer hanes celf Prydain 2025-26 (a lansiwyd gan Trinity Hall, Prifysgol Caergrawnt, a The Huntington, Califfornia). Roedd hi'n ysgolhaig Steven ac Elena Heinz yn Sefydliad Celf Courtauld, Llundain, lle cwblhaodd ei doethuriaeth ar gelf a chenedlaetholdeb India, ac wedi hynny bu'n darlithio ar raglenni israddedig ac ôl-raddedig. Mae hi wedi curadu arddangosfeydd yn y DU, UDA, Singapore ac India. Hi oedd Cymrawd Ymchwil Guradol Canolfan Paul Mellor yn Oriel Gelf Glynn Vivian, a wnaeth arwain at arddangosfa *Teigrod a Dreigiau: India a Chymru ym Mhrydain* (23 Mai - 2 Tachwedd 2025).

Cymrawd Ymchwil yng Nghanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru yw **Dr Rhys Kaminski-Jones** y cyhoeddwyd ei lyfr newydd, *Welsh Revivalism in Imperial Britain, 1707-1819*, gan Boydell & Brewer. Mae'n arbenigo yn y rhyngweithio rhwng llenyddiaeth Gymraeg/Geltaidd a diwylliannau eraill ym Mhrydain a thu hwnt - yn enwedig y cysylltiadau ymerodrol helaeth yn hanes diwylliannol Celtaidd. Mae wedi cyhoeddi gwaith helaeth ar adfywiad diwylliannol Celtaidd, gan gynnwys cyfrol a olygwyd ar y cyd, *Celts, Romans, Britons: Classical and Celtic Influence on the Construction of British Identities* (Oxford University Press, 2020) ac mae'n cyfrannu'n rheolaidd at gyhoeddiadau academaidd ac anacademaidd gan gynnwys *History Today*, *O'r Pedwar Gwynt*, *Verso Books*, *Studies in Romanticism*, a *The Review of English Studies*. Ar hyn o bryd, mae Rhys yn helpu i olygu rhifyn ar-lein newydd am yr ysgrifennwr teithio Thomas Pennant o Gymru, ac mae'n paratoi ymchwil newydd ar ddyddlyfrau teithio Indiaidd Henrietta Clive.

Curadur Cynorthwyol ar gyfer Celf Brydeinig Hanesyddol yn Tate Britain sy'n canolbwyntio ar gelf ramantaidd Prydain yw **Dr Nichole Cochrane**. Cwblhaodd PhD Hanes Celf ac Astudiaethau Treftadaeth a ariannwyd gan y Cyngor Ymchwil i'r Celfyddydau a'r Dyniaethau ym Mhrifysgol Hull yn 2019 a oedd yn archwilio rôl casglwyr preifat yn natblygiad casgliadau hynafiaethau ym Mhrydain yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg estynedig. Yn 2021, hi oedd Cymrawd Hŷn Canolfan Frick ar gyfer Hanes Casglu yn Frick Madison, Efrog Newydd, wrth iddi ymchwilio i'r fasnach drawsatlantig mewn celf hynafol ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Cafodd swyddi yn Oriel Watts - pentref yr artistiaid, yr Academi Frenhinol a'r Coleg Cerdd Brenhinol.

Hanesydd celf yw **Dr Mehreen Chida-Razvi** ac mae'n arbenigo mewn celf, pensaernïaeth a diwylliant materol Mughal De Asia, yn enwedig yn y 17eg ganrif.

Mae hi'n Gydymaith Ymchwil yn Adran Hanes Celf, SOAS, Prifysgol Llundain; mae'n Olygydd Cyswllt ar gyfer *International Journal of Islamic Architecture;* ac mae'n darlithio'n rheolaidd ar gelf Islamaidd ac Indo-Islamaidd yn Llundain yn SOAS, Sefydliad Celf Courtauld ac Amgueddfa Victoria ac Albert. Mae wedi cyhoeddi llawer o waith ar gelf a phensaernïaeth Mughal, ac mae'n rhannu ei harbenigedd gyda chynulleidfaoedd cyhoeddus trwy gyfranogi ac ymgynghori ar raglenni dogfen ar y Taj Mahal, podlediadau a chymryd rhan yng Ngŵyl Lenyddol Lahore, ac fel darlithydd arbenigol ar deithiau diwylliannol.

Athro Hanes Modern ym Mhrifysgol Abertawe yw **Martin Johnes**. Mae wedi ysgrifennu saith llyfr ar hanes Cymru a Phrydain, gan gynnwys *Wales: England's Colony (2019),* a wnaed yn gyfres deledu ar y BBC. Ei lyfr diweddaraf oedd *Welsh Not: Elementary Education and the Anglicization of 19th Century Wales*. Mae'n ysgrifennu llyfr ar hunaniaethau, hil ac iaith yn lluoedd arfog Prydain yn ystod yr Ail Ryfel Byd ar hyn o bryd.

Astudiodd **Peter Lord** radd mewn Celfyddyd Gain ym Mhrifysgol Reading ym 1970. Bu'n ysgolor gwadd yn Yale Centre for British Art ym 1994 ac yna'n gymrawd ymchwil yng Nghanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd o 1996-2003. Roedd yn gymrawd ymchwil yn CREW, Prifysgol Abertawe, rhwng 2007 a 2010. Mae wedi cyhoeddi a darlledu'n helaeth ar ddiwylliant gweledol Cymru yn Gymraeg a Saesneg, a churadu llawer o arddangosfeydd i sefydliadau cenedlaethol, gan gynnwys *'No Welsh Art': Exploring the Myth*, a ddangoswyd yn ddiweddar yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 2024-5. Ailgyhoeddwyd ei hanes un gyfrol o ddiwylliant gweledol Cymru, *The Tradition: A New History of Welsh Art*, gan Parthian Books i gyd-fynd â'r arddangosfa honno. Mae ei gyhoeddiadau mwy diweddar yn cynnwys *The Art of Music: Branding the Welsh Nation,* a ysgrifennwyd ar y cyd â Dr Rhian Davies. Mae Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion wedi dyfarnu Medal y Cymmrodorion iddo am ei wasanaeth gydol oes i hanes celf yng Nghymru.

Uwch-Ddarlithydd mewn Astudiaethau Almaeneg ym Mhrifysgol Bangor yw **Dr Sarah Pogoda**. Mae fy ymchwil yn canolbwyntio ar Avant Garde(s), gan gynnwys Fluxus a Christoph Schlingensief, ac yn ailymweld ag arferion artistig yng Nghymru ers canol y 1960au i'w cynnwys yn strategaethau arbrofol y Neo-Avantgarde(s). Dros y tair blynedd diwethaf, rwyf wedi canolbwyntio ar yr artist Paul Davies (o Grŵp Beca), gan gatalogio ei archif i alluogi ymchwil yn y dyfodol.

Mae **Daniel G. Williams** yn Athro Llenyddiaeth Saesneg, yn Gyfarwyddwr Canolfan Richard Burton ar gyfer Astudio Cymru ac yn Gyd-gyfarwyddwr Canolfan Ymchwil i Lên ac Iaith Saesneg Cymru ym Mhrifysgol Abertawe. Mae ei gyhoeddiadau'n cynnwys *Black Skin, Blue Books: African Americans and Wales* (2012), *Wales Unchained: Literature, Politics and Identity in the American Century* (2015) a *The Werner Sollors Reader: Ethnicity, Cosmopolitanism and Particularism* (2025).

Cerflunydd, ffotograffydd ac ymchwilydd hanes gerddi sy'n gweithio rhwng Pacistan a'r DU yw **David Alesworth**. Dros y degawdau diwethaf, mae'r ardd wedi bod yn drosiad allweddol iddo, y gall gwestiynu perthnasoedd diwylliannol penodol dynoliaeth â byd natur ag ef. Mae ei hunaniaeth hybrid ei hun yn llywio sawl agwedd ar ei ymarfer ac mae wedi'i ymrwymo'n barhaus i brosiectau celf gyhoeddus. Roedd yn aelod allweddol o'r mudiad 'Karachi Pop' yn y 1990au, yn Bennaeth Cerflunio yn

IVSAA, Karachi, ac mae'n aelod oes o Gymdeithas Frenhinol Cerflunwyr Prydain. Mae ei waith wedi'i gynnwys mewn cyhoeddiadau fel *Architectural Review* a *British Art Studies*, Canolfan Paul Mellon, y DU.